**URDD 2026 - Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed Beirniadaeth Lawn ar y Cyd:**
**Dr Owain Llwyd a Gareth Glyn**

Eleni, derbyniwyd deg ymgeisydd i'r gystadleuaeth hon, ac mae'r amrywiaeth o ran arddull, offeryniaeth a genre yn adlewyrchu dyfnder y dalent gyfansoddi ifanc sydd ar waith yng Nghymru heddiw. O ganeuon corawl i gerddoriaeth gerddorfaol, o ddarnau piano unawdol i ensemble offerynnol, o jazz i arddull ffilm, roedd y gystadleuaeth hon yn gynrychiolaeth gyffrous a lliwgar o'r hyn y mae cyfansoddwyr dan 25 oed yn medru ei gynnig.

Gweithiodd y ddau feirniad yn gwbl annibynnol ar ei gilydd, ac mae'n bleser mawr nodi ein bod wedi cyrraedd yr un casgliad yn union o ran y gwaith ar y brig; tystiolaeth, gobeithio, fod y dyfarniad hwn ar dir cadarn. Rhaid cydnabod yr her arbennig a ddaw gyda beirniadu cystadleuaeth mor amrywiol ei natur: nid yw'n hawdd cymharu darn corawl sy'n tynnu ar farddoniaeth Aneirin â cherddoriaeth gerddorfaol ramantus, na'r naill na'r llall â thrac ffilm neu unawd jazz. Eto i gyd, dyna gyfoeth y gystadleuaeth, a'r amrywiaeth honno ei hun yn destun llawenydd. Mae'r deg ymgeisydd yn haeddu clod am eu gwaith, a diau y bydd nifer o'r cyfansoddiadau'n denu perfformiadau cyhoeddus - rhywbeth mae pob cyfansoddwr yn ei ddeisyfu.

Nodwn ambell duedd amlwg yn y gystadleuaeth: pwys cynyddol cerddoriaeth ffilm a theledu fel dylanwad ar genhedlaeth newydd o gyfansoddwyr; awydd i seilio gwaith ar lenyddiaeth a thraddodiad Cymraeg; a'r dasg barhaus, ac anrhydeddus, o ddod o hyd i lais personol, cyfoes ac unigryw.

Cyflwynir y feirniadaeth hon yn nhrefn y marciau, gan ddechrau gyda'r ymgeiswyr a ddaeth i'r brig olaf.

**Ronaldo - ‘The Rondo of staccatos’**

Derbyniwyd perfformiad piano byw o'r darn hwn yn unig. Ni chafodd sgôr ei ddarparu i'r beirniaid, ac nid oedd esboniad o'r darn ychwaith. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'w feirniadu'n llawn, ac yn golygu nad oes modd dyfalu'n gywir at beth mae'r ymgeisydd yn anelu. Yn ôl yr hyn a glywsom, mae'r darn, sy'n llai na dau funud o hyd, yn ymgais i archwilio'r egni sy'n bosibl mewn rondo llawn staccatos, fel y mae'r teitl yn crynhoi. Fodd bynnag, nid yw'n rondo yn ystyr llawn y gair: mae'r holl staccatos yn digwydd yn y llaw chwith yn unig, sydd am gyfnod hir yn ailadrodd yr un cord o bumed agored, tra bod y llaw dde yn chwarae alaw lefn gydag ambell nodyn nad yw'n perthyn i'r cyd-destun diatonig neu foddol.

Mae'r ddau feirniad yn cytuno y byddai tempo mwy egnïol yn creu'r awyrgylch penodol yn fwy effeithiol, ac y gallai'r darn fod yn fyrrach fyth. Mae yma rywbeth anarferol ac annisgwyl, ac rydym yn awchu i glywed mwy, ond mae'r gwaith, yn ei ffurf bresennol, braidd yn ansylweddol o ran hyd ac ystod ar gyfer y brif gystadleuaeth hon. Ymarfer yw hwn yn y bôn, ond ymarfer pwysig i unrhyw gyfansoddwr sy'n mentro allan.

**Cilfan - 'Y Gwcw'**

Gosodiad o eiriau John Ceiriog Hughes i gôr meibion (neu bedwarawd TTBB) a phiano yw hwn. Mae'n ddarn swynol, canol y ffordd, a fyddai'n addas ar gyfer corau meibion, ac mae'n arddangos medr i drin lleisiau a rhoi cryn annibyniaeth i'r llinellau, er y byddai angen baswyr go arbennig i gyrraedd y nodau isaf. Mae'r ymgais i ymateb i eiriau'r bardd gydag amrywiaeth mynegiant yn glodwiw, er bod y gwaith yn troi yn eithaf anthemig erbyn y diwedd ac mae'n bosibl dadlau nad dyna'r briodas ddelfrydol rhwng y farddoniaeth a'r gosodiad ar gyfer cerdd mor delynegol. Serch hynny, mae'n amlwg bod hwn yn gyfansoddwr sy'n hoff o gyfansoddi mewn arddull boblogaidd, ac efallai â gyrfa yn

y maes hwnnw o'i flaen ac mi fyddai perfformiad o'r darn hwn yn sicr yn plesio cynulleidfa mewn cyngerdd.

Mae'n rhaid nodi, fodd bynnag, fod yr mp3 a ddarparwyd gyda'r sgôr yn cynnwys adran bres nad yw'n ymddangos yn y nodiant sy'n siom. Rhaid hefyd i Cilfan ymarfer y grefft o wirio'r sgôr yn ofalus cyn cyflwyno: mae arwyddion amser a chymalau ar gyfer y cantorion ar goll mewn mannau. Mae materion eraill hawdd eu cywiro hefyd - lleoliad symbolau pedal y piano, maint y nodiant ar y dudalen, a deinameg ar goll - sydd i gyd yn tynnu oddi wrth y gwaith ar hyn o bryd. Ymgais addawol iawn, serch hynny.

**Twyllodrus - 'Atgofion'**

Darn tua thair i bedair munud o hyd i biano yn y ffurf ABA yw hwn. Mae'n fynegiannol a dramatig, a'r ysgrifennu i biano yn idiomatig ac effeithiol, ac mewn mannau mae llais ffres, personol i'w glywed, sy'n arwydd calonogol iawn. Mae alawon hyfryd a harmoni syml yn cefnogi'r deunydd melodig, a nodwn rym go iawn yng nghanolbwynt y darn - mae'n hyfryd gweld hynny ymysg deunydd mwy soniarus.

Mae dylanwad Chopin a Brahms yn amlwg yma ac acw, ac mae'r arddull yn tynnu'n helaeth o'r cyfnod Clasurol; hoffem fod wedi gweld mwy o lais unigryw'r ymgeisydd yn dod i'r amlwg drwyddo draw. Mae'r cyflwyniad nodiant hefyd angen rhywfaint o dacluso, nid yw mynediad at dechnoleg addas yn rhwystr y dyddiau hyn. Manylion i'w hystyried: ychwanegu teitl, is-deitl a nodyn rhaglen, ffugenw'r cyfansoddwr, hydau barrau o frig y staff i waelod y llaw chwith, a lleoliad deinameg heb eu hailadrodd yn ddiangen. Mi ddaw'r llais personol hwnnw gyda mwy o brofiad - rydym yn edrych ymlaen at weld datblygiad Twyllodrus.

**Awen - 'Rondo'**

Rondo i delyn yw hon, darn clasurol ei naws gyda strwythur cadarn a deunydd thematig cryf. Nodwn yn arbennig fod Awen yn osgoi'r demtasiwn i arddangos nodweddion o'r delyn sy'n aml yn cael eu gor-ddefnyddio, megis glissandi ac arpeggios, penderfyniad doeth, gan gadw'n helaeth at wead deulais gwrthbwyntiol. Mae'r darn yn ddeiatonig dros ben, ac yn osgoi unrhyw drawsgyweirio, cordiau estynedig neu harmoni anthraddodiadol. Darparwyd sgôr ac mp3 defnyddiol.

Mae hwn yn enghraifft dda o gyfansoddi mewn arddull *pastiche*, ac efallai y byddai'n taro'r nodau cywir fel aseiniad gwaith ysgol neu brifysgol, ond i sgorio'n uwch yn y gystadleuaeth hon, mae angen mwy o fentro y tu hwnt i'r elfennau diogel, a datblygu syniadau gwreiddiol a llais unigol cyfansoddwr cyfoes. Rydym yn sicr y bydd Awen yn dewis troedio i fyd ychydig mwy mentrus yn ei harmoni wrth fagu profiad.

**Emrys Wledig - 'Ffantasia'r Fendigaid Fam'**

Cyflwynodd Emrys Wledig gyfres fer o amrywiadau ar gyfer piano wedi'i seilio ar dôn Mater Christi gan Meirion Williams a geiriau John Humphreys. Mae'r ddau ohonom yn cytuno bod yr ysgrifennu i biano yn fedrus ac idiomatig. Er mai arddull led-Ramantaidd sy'n nodweddu'r cyfanwaith, mae sawl cyffyrddiad effeithiol sy'n awgrymu bod yr ymgeisydd yn datblygu llais ei hun - nod clodwiw iawn i anelu ato. Darparwyd recordiad byw rhagorol ynghyd â sgôr addas.

Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y gwaith wedi'i adeiladu mor agos ar gerddoriaeth sy'n bodoli eisoes yn codi'r cwestiwn a yw'n dechnegol yn drefniant yn hytrach na chyfansoddiad gwreiddiol.

**Capten Sam - 'Syllu Mor Syn'**

Trac pop ysgafn, bywiog yw cyfraniad Capten Sam - gosodiad i lais ac ensemble offerynnol, gyda sgôr sy'n rhestru llais (heb y geiriau), dwy ffliwt (gyda'r nod y byddai'n rhaid i un bod yn ffliwt alto), piano, bas a kit. Mae'r sgôr yn sylfaen yn unig ar gyfer perfformiad, fel sy'n arferol mewn cân ysgafn o'r natur hon, ac mae'r ffeil sain a ddarparwyd yn gynhyrchiad demo medrus ac apelgar. Clywir naws Endaf-Emlynaidd ynddo, ac ar brydiau mae'r arddull yn ein hatgoffa o *Christine and the Queens*. Mae'r cytgan yn fachog a'r trefniant yn ddiddorol, a'r cynhyrchiad ei hun, er yn ddemo, yn ddemo o safon.

Mae'n anodd gweld sut mae'r darn hwn yn gweddu i'r gystadleuaeth hon yn ei ffurf arferol, fodd bynnag. Mae'n gân boblogaidd dda ac efallai y byddai'n fwy cartrefol ar lwyfan arall, megis Cân i Gymru.

**Calan - 'Joio'r Jazz!'**

Mae'n bleser derbyn darn mewn arddull jazzaidd, llawn hwyl a hiwmor, ar gyfer unawd piano, ac mae'n amlwg bod Calan wedi mwynhau'r broses gyfansoddi. Mae'r darn yn agor fel unawd jazz traddodiadol boogie-woogie, wedi'i gysodi yn y ffordd sy'n gyffredin i jazz ysgrifenedig, gyda'r gair 'swing' ar y dechrau yn gyfarwyddyd i'r pianydd droi'r cyntaf o bob pâr o gwaferi yn nodyn dotiog. Nodwn fod y ffeil sain a ddarparwyd wedi 'darllen' y rhythmau'n llythrennol sy'n golygu colli rhan helaeth o effaith y jazz; fel arfer mewn meddalwedd gysodi mae modd dewis allbwn swing awtomatig, ac argymhellwn hynny ar gyfer unrhyw gyflwyniad yn y dyfodol.

Mae'r ymgeisydd yn amlwg yn gyfarwydd ac yn gyffyrddus yn yr arddull. O ran ffurf, mae'r sawl ddatganiad o'r brif thema yn cael eu gwahanu gan episodau sy'n ymadael â'r arddull traddodiadol ac yn mynd i fyd mwy gwrthbwyntiol ac arbrofol. Mae fflachiadau o Aaron Copland a hyd yn oed Prokofiev i'w clywed yma ac acw, a'r adrannau hynny yn dangos cryn grefft. Efallai mai yn yr episodau hynny y mae gwir lais yr ymgeisydd i'w glywed. Mae'r diweddglo hefyd yn effeithiol iawn, a'r plethiad hwn o'r byd jazz a'r byd clasurol cyfoes yn ddyfeisgar dros ben. Edrychwn ymlaen at weld Calan yn datblygu ymhellach.

**Melóch - 'Y Daith Tu Hwnt i'r Gorwel'** *(3ydd)*

Darn swmpus ar gyfer ensemble o ddeg offerynnwr yw hwn - ffliwt, obo, clarinet, corn, glockenspiel, llinynnau a phiano unawdol - gyda'r piano yn cael lle blaenllaw ac yn aml yn dyblu offerynnau chwyth. Mae dylanwad cryf cerddoriaeth ffilm animeiddio stiwdio Ghibli a Joe Hisaishi yn amlwg drwy'r gwaith, ac mae apêl uniongyrchol i'r gwrandäwr. Mae'r elfen ddawns sy'n rhedeg drwy'r gwaith yn hyfryd, ac mae'r adrannau tyner a swynol, llawn emosiwn a rhamant, yn gweithio'n effeithiol cyn i'r elfen ddawns ailymuno. Mae'n bosibl iawn fod y darn hwn wedi'i gyfansoddi ar gyfer delweddau, er nad yw hyn yn glir o'r ymgais heb nodyn rhaglen.

Mae'r ymgeisydd yn gwbl gartrefol yn cyfansoddi ar gyfer offerynnau unigol a'r grefft o'u cyfuno'n effeithiol ac mae nifer fawr o dechnegau syml ac effeithiol yn y sgôr sy'n hanfodol ar gyfer sesiynau recordio cerddorfaol. Ar brydiau, fodd bynnag, mae'r paled harmonig ychydig yn gyfyngedig, ac mae'r gwaith yn eithaf adrannol ei natur heb is-deitlau, sy'n ei gwneud hi'n anodd gwybod yn union beth sy'n cael ei ddisgrifio ar bob adeg.

Mae'n amlwg bod y cyfansoddwr hwn yn datblygu sgiliau cerddorfaeth ym maes ffilm a theledu, ac mae'r addewid am yrfa broffesiynol yn y maes hwnnw yn ddi-os. Pe bai'r gystadleuaeth yn chwilio am ddarn delweddol, swynol, cerddorfaol ei naws, addas ar gyfer ffilm, byddai 'Y Daith Tu Hwnt i'r Gorwel' yn agos iawn i'r brig. Ond er mwyn sgorio'n uwch, bydd angen datblygu llais mwy gwreiddiol,

personol a chyfoes ac mae pob arwydd bod yr ymgeisydd ar y ffordd i wneud hynny. Llongyfarchiadau ar ddod yn drydydd.

**Pioden Ddu - 'Lluniadau Mynyddol'** *(2il)*

Gwaith cerddorfaol tonyddol ar gyfer cerddorfa lawn yw 'Lluniadau Mynyddol' - darn llawn antur sy'n tynnu ysbrydoliaeth o fyd natur, gan fynd â ni ar daith drwy'r awyr foreol, ar hyd nant, draw i wrando ar yr adar, at doriad gwawr, ac at gopa'r cymylau. Mae'r cyfansoddwr yn amlwg yn brofiadol, ac mae ei afael ar offerynweithio yn drawiadol o'r adrannau ysgafnfryd i'r diweddglo gwirioneddol symffonig.

Mae i'r brif thema natur werinol, gyda dyfyniad byr, o bosibl anfwriadol, o *Barbara Allen*. Mae'r thema honno'n ymddangos mewn gwahanol ffurfiau drwy gydol y darn, gan ddiogelu unoliaeth y gwaith i raddau helaeth - sy'n bwysig o gofio bod pum adran yn cael eu cynnwys mewn cwta bedwar munud, gan olygu nad oes llawer o amser i ymgartrefu'n llwyr yn yr un ohonynt.

Mae'r darn yn arddangos nifer o dechnegau cerddorfaeth syml ond effeithiol: defnydd o'r adran chwyth wrth rannu deunydd blodeuog, adrannau cordiol cytbwys yn yr adran bres, a defnydd synhwyrus yr adran linynnau wrth gyflwyno alawon hyfryd a rhamantus. Cryfder nodedig y cyfansoddwr yw'r gallu i gynnal diddordeb drwy amrywio rhwng gwead tenau a thrwchus drwy gydol y darn - camp amlwg, a thuedd mewn gwaith cerddorfaol cynnar yn aml i orlenwi'r sgôr; nid yw Pioden Ddu yn syrthio i'r trap hwnnw. Uchafbwynt y gwaith oedd yr adran toriad gwawr sy’n arddangos defnydd mawreddog, pwerus a champus o'r gerddorfa gyfan.

Er gwaethaf yr antur a grym y technegau cerddorfaol, mae angen i'r cyfansoddwr ifanc hwn barhau i ddarganfod llais personol, ond mae pob arwydd ei fod ar y ffordd i wneud hynny. Llongyfarchiadau gwresog ar ddod yn ail.

**Cawsyn - 'Awdl XXIV'** *(1af)*

Mae'n bleser o'r mwyaf, ac yn unfrydol rhwng y ddau feirniad, gyhoeddi mai Cawsyn sy'n ennill Y Fedal Gyfansoddi eleni gyda 'Awdl XXIV' - cylch o ganeuon corawl SATB pedwar symudiad, bron i wyth munud o hyd, wedi'i seilio ar awdl o'r Gododdin gan Aneirin.

Mae derbyn gwaith gyda chyd-destun a nodyn rhaglen bob amser yn bleser, ac mae hwn yn enghraifft wych o hynny. Mae'r cyfansoddwr yn amlwg wedi ymdrwytho yn y testun Cymraeg Canol, yn deall cryfderau'r côr SATB yn drylwyr, ac yn ymateb i'r geiriau yn ddramatig ac effeithiol. Mae'r ieithwedd gerddorol yn gwbl gyfoes: er bod arwyddion cyweirnod yn cael eu dynodi i bob symudiad, tonyddiaeth estynedig sy'n nodweddu'r rhan fwyaf o'r gwaith, ac eithrio un adran emynaidd sydd, yn fwriadol, lawer yn fwy traddodiadol ei harmoni na'r gweddill. Ceir hefyd ddefnydd o dechnegau modern megis glissandi a sibrwd, a rhannu'r côr SATB i gymaint ag wyth rhan annibynnol. Nodwn hefyd feiddgarwch yr ysgrifennu lleisiol, gan ofyn i'r baswyr gyrraedd cyn ised â D o dan yr erwydd - o ran traw, mae'r gwaith yn rhoi cryn her i'r cantorion.

Dyma grynhoad o'r pedwar symudiad:

**Aerfre**; Agoriad ysgafn a chynnil sy'n adeiladu'n gelfydd, gan greu awyrgylch bwriadol erchyll. Mae'r unawd bas yn ysgytwol wrth ddilyn y cordiau pwerus i'r côr llawn.

**Trydar**; Symudiad llawn patrymau cylchol a chordiau niwlog.

**Tân**; Symudiad llawn egni a drama. Dyma uchafbwynt y cylch, heb amheuaeth.

**Crau**; Symudiad yn arddull yr emyn-dôn, sy'n afaelgar ac yn gweddu'r testun yn berffaith, gan weithredu'n effeithiol fel dilyniant a chasgliad naturiol ar ôl 'Tân'.

Dyma waith o safon uchel iawn, proffesiynol, gyda nodiant addas drwyddo draw. Does dim amheuaeth bod Cawsyn yn llais cyfoes, cyffrous a phwysig ar gyfer dyfodol cerddoriaeth Gymraeg. Llongyfarchiadau gwresog iawn.

**Dr Owain Llwyd a Gareth Glyn**